

# Goblygiadau ariannol Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Hydref 2022

## 1. Cyflwyniad

1. Hydref 2022 Cyflwynwyd Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)<sup>1</sup> (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol<sup>2</sup> (ME), gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER), gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) ar 20 Medi 2022.

2. Ar yr un diwrnod, gwnaeth Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol, ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn<sup>3</sup> ar ran y Gweinidog nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

3. Mae'r Bil yn cynnig yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys yn rhad ac am ddim) "gynhyrchion plastig untro diangen penodol, sydd mor aml yn cael eu sbwriela". I ddechrau, bydd y Bil arfaethedig yn targedu:

- platau, cytleri, troellwyr diodydd; gwellt yfed (gan gynnwys gwellt sydd ynghlwm), cwpanau diodydd wedi'u gwneud o bolystyren, cynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren; cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, [Bil Diogelu'r Amgylchedd \(Cynhyrchion Plastig Untro\) \(Cymru\)](#)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol](#)



bolystyren; ffyn cotwm plastig; ffyn balwnau; cynhyrchion oco-so-ddiraddiadwy; a bagiau siopa plastig untro.

4. Mae'r Bil yn cynnig pŵer i wneud rheoliadau hefyd i alluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu dynnu cynhyrchion oddi ar y rhestr hon a rhoi pwerau i awdurdodau lleol orfodi troseddau o dan y Bil.
5. Clywodd y Pwyllgor Cyllid <sup>4</sup> (y Pwyllgor) dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ar 29 Medi 2022<sup>5</sup>, gan:
  - Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd
  - Gian Marco Currado. Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Materion Gwledig
  - Louise Clarke, Uwch Reolwr Cynnyrch Defnydd Sengl
  - Richard Clark, Pennaeth Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
6. Bu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (NHAS) yn gwneud gwaith craffu ar bolisi'r Bil<sup>6</sup>.
7. Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.<sup>7</sup>
8. Nod Llywodraeth Cymru yw defnyddio'r Bil fel deunydd i gefnogi ei hachos mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol yn y Goruchaf Lys ac o'r herwydd roedd yn dymuno symud y Bil yn gyflym drwy'r Senedd er mwyn hepgor gwaith craffu Cyfnod 1.
9. Ar 17 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor NHAS mewn perthynas â chais gan Lywodraeth Cymru i hepgor Cyfnod 1. Ymatebodd y Pwyllgor NHAS gan ddweud:

*"...byddai penderfyniad gan y Pwyllgor Busnes i osgoi gwaith craffu pwyllgor yn amddifadu rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r unig gyfle iddynt gael eu hymgyngori ar y darpariaethau manwl yn y Bil. Roedd angen gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, y tu allan i broses graffu*

---

<sup>4</sup> [Y Pwyllgor Cyllid](#) (Jayne Bryant AS, yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore)

<sup>5</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022](#)

<sup>6</sup> [Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith](#)

<sup>7</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#)

*ffurfiol y Bil, er mwyn osgoi diffyg craffu. Credaf ein bod wedi llwyddo yn ein nod. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y dull hwn mewn unrhyw ffordd yn cyfateb i, ac yn sicr nid yn disodli'n ddigonol waith craffu Pwyllgor Cyfnod 1 ffurfiol.”<sup>8</sup>*

**10.** Yn dilyn hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol i ystyried yr egwyddorion cyffredinol yng ngoleuni'r gwaith yr oedd y Pwyllgor NHAS eisoes wedi'i wneud.

## Safbwynt y Pwyllgor

**11.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi safbwynt y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y byddai hepgor Cyfnod 1 yn amddifadu rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r cyfle iddynt gael eu hymgyngori ar y darpariaethau manwl yn y Bil. At hynny, mae'n amddifadu'r Senedd o'r cyfle wneud gwaith craffu llawn a chadarn ar oblygiadau polisi ac ariannol y Bil.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â safbwynt y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith na ddylid hepgor Cyfnod 1 (ystyried egwyddorion cyffredinol Bil) ac y dylai pwyllgorau'r Senedd gael digon o amser i ymgymryd â'r rôl graffu bwysig hon.

---

<sup>8</sup> Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Pwyllgor Busnes

## 2. Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

### Diben y Bil

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Bil yn helpu i:

*"...gyflymu'r newid ymhlith defnyddwyr o gynhyrchion untro tuag at ragor o aildddefnyddio, a bydd yn annog busnesau yng Nghymru i arwain y ffordd wrth ddatblygu opsiynau mwy cynaliadwy."*<sup>9</sup>

13. Pwysleisiodd y Gweinidog:

*"the market conditions are such that consumers are starting to demand non-single-use items. It's a behaviour change... and that's what we're looking for here. So, even without this Bill, we think that businesses would be forced into changing their business practices by the rising consumer demand for more reused, recyclable, sustainable products than are currently available in any kind of single-use plastic."*<sup>10</sup>

### Costau'r Bil

14. Mae'r AER yn nodi crynodeb o'r costau dros gyfnod arfarnu deng mlynedd 2020/21 – 2029/30. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil yw £18.9 miliwn. Mae'r AER yn nodi nad oes unrhyw gostau ychwanegol i'r opsiwn busnes fel arfer.<sup>11</sup>

**Tabl 1 Costau sy'n gysylltiedig â Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2020-21 i 2029-30**

Disgrifiad o'r gost	Cost (£000)
<b>Costau gweinyddol</b>	
Trosiannol	500
Rheolaidd (dros 10 mlynedd)	1,000
<u>Cyfanswm</u>	<u>1,500</u>

<sup>9</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 8

<sup>10</sup>Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 169

<sup>11</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 21

Costau cydymffurfio	
Costau ychwanegol i fusnesau a chwsmeriaid ddisodli eitemau plastig untro gydag opsiynau amgen di-blastig	16,800
Costau busnes - hyfforddi staff, newid cyflenwyr a sicrhau cydymffurfiaeth	300
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,100</b>
Costau eraill	
Trin gwastraff	300
<b>Cyfanswm cost y Bil</b>	<b>£18,900</b>

## Costau gweinyddol

**15.** Bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu cyfanswm costau gweinyddol o £1.5 miliwn. Amcangyfrifir mai'r costau trosiannol cychwynnol fydd £500,000, sy'n cynnwys datblygu canllawiau dwyieithog, cyfathrebu i gefnogi cyflwyno'r Bil a chostau staff sy'n gysylltiedig â'i weithredu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhagweld costau rheolaidd o £100,000 dros ddeng mlynedd i staff sy'n rheoli'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth a datblygu polisi yn y dyfodol.<sup>12</sup>

**16.** Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol, dywedodd y Gweinidog ei bod yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a chyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fanteisio ar eu harbenigedd o rannu negeseuon cydymffurfio â busnesau. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o weithredu Deddf lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, a Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010, gan ychwanegu bod cyfathrebu a chanllawiau effeithiol wedi gwella cydymffurfiaeth yn yr achosion hynny.<sup>13</sup>

## Cydymffurfiaeth a chostau eraill

**17.** Mae'r AER yn nodi bod costau cydymffurfio yn debygol o fod yn £17.1 miliwn.<sup>14</sup> Mae'r AER yn dweud bod argaeledd cyffredinol a chyffredinolrwydd cynhyrchion nad ydynt yn rhai plastig untro wedi cael eu tanddatgan oherwydd nifer y gwledydd sy'n gwahardd cynhyrchion plastig

<sup>12</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 22

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 142

<sup>14</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 22

untro yn fyd-eang a chamau rheoleiddio sy'n cael eu cymryd mewn mannau eraill yn y DU, felly mae cost eitemau nad ydynt yn blastig untro wedi cael ei gor-ddweud.<sup>15</sup>

**18.** Dywedodd y Gweinidog fod yr amcangyfrif o'r costau i fusnesau sy'n newid i ddewis arall nad yw'n blastig untro yn seiliedig ar ymchwil farchnad a wnaed yn 2019/20.<sup>16</sup> Awgrymodd fod cyhoeddi'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn arwydd cryf i fusnesau a bod llawer o fusnesau eisoes wedi newid o ddefnyddio cynhyrchion plastig untro.<sup>17</sup> Nododd hefyd fod hyn yn cael ei arwain gan y galw gan ddefnyddwyr am gynhyrchion amgen.<sup>18</sup>

**19.** Cadarnhaodd y Gweinidog yr amcangyfrifir y bydd y costau gorfodi tua £100,000 y flwyddyn i awdurdodau lleol, a fydd yn ddyledus bob blwyddyn o'r ail flwyddyn, ac sydd wedi'u cynnwys yn y costau gweinyddol o £1 miliwn. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod cyfathrebu effeithiol cyn y ddeddfwriaeth wir yn lleihau'r angen am weithgareddau gorfodi.<sup>19</sup> Ychwanegodd:

*"We'll be working with local authorities to provide guidance on how we expect the bans to be interpreted, and as with the carrier-bag charge, we anticipate enforcement activities will be intelligence led and undertaken with a light touch, focusing on bringing businesses into compliance in the first instance, and not on enforcement."*<sup>20</sup>

**20.** Mae'r Gweinidog yn gobeithio, yn debyg i'r tâl am fapiau siopa, y bydd gennym lefelau uchel o gydymffurfiaeth wrth i bobl ddod i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt, ac felly nid yw'n disgwyl i gostau gorfodi mawr iawn ddisgyn ar awdurdodau lleol.<sup>21</sup>

## Costau heb eu meintoli

---

**21.** Mae'r prif gostau ac anfanteision heb eu meintoli yn ymwneud â gweithgynhyrchwyr a busnesau eraill, wrth iddynt wyro cynhyrchiant oddi wrth eitemau plastig. Mae'r AER yn nodi mai'r rheswm dros hyn yw diffyg data am nifer y gweithgynhyrchwyr yng Nghymru.

---

<sup>15</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 65

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022 paragraff 145

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022 paragraff 145

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022 paragraff 145

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 174

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022 paragraff 143

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 174

---

**22.** Cydnabu'r Gweinidog nad oedd yn bosibl meintoli'r costau hynny oherwydd diffyg gwybodaeth am nifer y busnesau sydd ynghlwm wrth hyn. Dywedodd bod y dadansoddiad effaith a gynhaliwyd yn disgwyl, os rhywbeth, y byddai'r costau ar gyfer trosglwyddo yn lleihau wrth i waharddiadau ar gyfer eitemau tebyg yn yr UE, yn ogystal â'r rhai a gynlluniwyd yn Lloegr a'r Alban, ddod i rym hefyd.<sup>22</sup>

**23.** Dywedodd swyddog y Gweinidog fod y newid mewn gweithgynhyrchu tuag at gynhyrchion nad ydynt yn blastig untro yn golygu bod llawer o'r costau hynny eisoes yn cael eu hysgwyddo ac felly byddai hynny'n lleihau effaith uniongyrchol y ddeddfwriaeth.

**24.** Mae'r AER yn nodi y bydd cwmnïau yng Nghymru yn wynebu costau lle mae angen buddsoddi er mwyn trosglwyddo o gynhyrchion plastig untro i gynhyrchion amgen. Tynnodd y Gweinidog sylw eto at yr heriau a wynebir wrth nodi'r cwmnïau hyn ac amcangyfrif y costau buddsoddi posibl sy'n gysylltiedig â hynny:

*"Of the market leaders identified, only one manufacturing facility was identified in Wales and a further 12 manufacturers can produce plastic or non-plastic products within the scope of these proposals... They were all invited to participate in the research alongside us, and their insight helped us to inform the impact assessment process. The research does acknowledge that there are challenges in engaging with the companies, and we look to address those during the public consultation. But, I specifically invited comments from industry group representatives, and the research also noted that the businesses interviewed were often not in a position themselves to share detailed information about costs. So, the estimates were calculated using the modelling off the back of the information that we did have."<sup>23</sup>*

**25.** Gofynnodd y Pwyllgor a fydd ymchwil pellach yn cael ei wneud ynghylch y cynhyrchion y bwriedir eu gwahardd, nad yw'r costau/buddiannau yn hysbys amdanynt. Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

*"...we are continuing to conduct research on a range of products, both the products involved in the initial ban...And during the consultation, we had 60, I think it was, more products that people brought forward for consideration for*

---

<sup>22</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 145

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 176

*banning. So, we'll be conducting research on all of those on an ongoing basis.*"<sup>24</sup>

**26.** Tynnodd y Gweinidog sylw at y mecanwaith adrodd o dan adran 4 o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd bob blwyddyn ar ba un a ydynt yn mynd i gynnwys unrhyw beth arall yn y gwaharddiad ai peidio, ac wedyn, os ydyn nhw'n mynd i gynnwys rhywbeth, beth fydd y sylfaen ymchwil ar gyfer hynny.<sup>25</sup> Ychwanegodd y bydd ystyriaeth barhaus o'r effaith ariannol yn cyd-fynd â hynny.<sup>26</sup>

**27.** Mae'r AER yn awgrymu bod y dadansoddiad economaidd yn seiliedig ar wahardd naw cynnyrch, tra bod y Bil yn cynnig gwahardd 11 o gynhyrchion. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y model cychwynnol yn seiliedig ar naw cynnyrch ond ers comisiynu'r astudiaeth:

*"we anticipate that the use of the nine single-use plastic products in the Bill will have decreased, as bans, or the signalling of bans, have taken effect elsewhere in the UK and, indeed, globally. So, we think it's reasonable to assume that the additional costs of the other two products will be balanced by a cost reduction on the initial nine for that reason."*<sup>27</sup>

## **Arbedion cost a manteision y Bil**

---

**28.** Mae'r AER yn nodi ei bod yn annhebygol y bydd arbedion cost sylweddol o ganlyniad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth.<sup>28</sup> Fodd bynnag, mae'r AER yn nodi:

*"Ni amcangyfrifwyd y manteision i'r amgylchedd, i fyd natur ac i iechyd pobl wrth leihau'r risg o broblemau gyda'r ecosystem, yr hinsawdd ac iechyd pobl sy'n deillio o lygredd plastig, ac nid ydym yn gwybod beth yw'r manteision. Lleihau'r risgiau hyn yw'r prif reswm dros gyflwyno'r gwaharddiadau."*<sup>29</sup>

**29.** Ynghylch hyn, dywedodd swyddog y Gweinidog:

*"what we've not really been able to give a monetary value for is the environmental benefits of all this, and I think that's really quite important to remember and take a step back. The costs we've assessed for this kind of*

---

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 179

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 179

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 179

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022 paragraff 186

<sup>28</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 22

<sup>29</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 22



*intervention are not huge, I would say, but there is this unknown, which is likely to be quite large, of what the environmental benefits are from what we're trying to do, and I think that's quite an important thing to always bear in mind when looking at the cost-benefit balance for this type of legislation."*<sup>30</sup>

**30.** Mae'r AER yn cynnwys manteision o reffeniw, sef cyfanswm o £8.6 miliwn o weithgynhyrchu, os yw'r sector yn newid i fod yn ddi-blastig, sy'n cyfrif am weithgynhyrchu'r DU gyfan. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud:

*"Mae'r effeithiau ar reffeniw'r maes gweithgynhyrchu yn cael eu hamcangyfrif ar gyfer y Deyrnas Unedig, ond doedd dim modd amcangyfrif yr effeithiau penodol yng Nghymru oherwydd prinder data."*<sup>31</sup>

**31.** Ond wrth gyfeirio at y £8.6 miliwn, dywedodd y Gweinidog "we've used a population basis to try and extrapolate the figures from the UK-wide data".<sup>32</sup>

## Chwyddiant

---

**32.** Mewn perthynas â sut mae chwyddiant yn cael ei ystyried mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, dywedodd y Gweinidog fod costau'n cael eu hamcangyfrif mewn blwyddyn y sail brisiau, felly mae effeithiau chwyddiant prisiau cyffredinol yn cael eu dileu o'r amcangyfrifon, yn unol â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.<sup>33</sup>

**33.** Fodd bynnag, cydnabuwyd yr ansicrwydd ynghylch prisiau a chost, yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Pwysleisiodd y Gweinidog, o safbwynt fforddiadwyedd, y byddai cynhyrchion plastig untro a chynhyrchion nad ydynt yn blastig untro ill dau yn destun chwyddiant. Er hynny, roedd hi'n teimlo y byddai rhai cynhyrchion plastig hyd yn oed yn ddrytach i'w gwneud oherwydd y prisiau olew cynyddol ac felly byddai'n fantais busnes gwirioneddol i newid i bethau fel bambw a chynhyrchion pren, i ffwrdd o gynhyrchion drud iawn sy'n seiliedig ar olew.<sup>34</sup>

**34.** Dywedodd y Gweinidog "we haven't got a mitigation package in this Bill, but obviously the Welsh Government continues to support SMEs with £160 million targeted non-domestic rates

---

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022 paragraff 228

<sup>31</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 37

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022 paragraff 221

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 230

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 209

support.”<sup>35</sup> Ychwanegodd hefyd “we have a Business Wales advice service that offers a wide variety of support to help businesses with more general financial pressures over the coming months”.<sup>36</sup>

**35.** Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu diweddarau'r costau amcangyfrifedig yng ngoleuni'r cynnydd presennol mewn prisiau.<sup>37</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**36.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ac yn cefnogi nod y Bil i gyflymu'r newid o gynhyrchion plastig untro tuag at ddatblygu dewisiadau amgen mwy cynaliadwy a rhagor o ail-ddefnyddio. Rydym yn falch o glywed bod y galw gan ddefnyddwyr yn ysgogi newid am gynhyrchion amgen ac y gallai'r newid sydd eisoes yn digwydd ym maes gweithgynhyrchu i gynhyrchion amgen leihau effaith ariannol y Bil. Er bod yr AER yn nodi ei bod yn annhebygol y bydd arbedion cost sylweddol o ganlyniad i'r Bil, mae'r Pwyllgor yn cydnabod manteision enfawr y ddeddfwriaeth hon i'r amgylchedd, bywyd gwyllt, iechyd a llesiant drwy leihau llygredd plastig.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**37.** Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod y Gweinidog yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i bod yn cymhwyso arfer gorau o'r hyn a ddysgwyd yn sgil gweithredu deddfwriaeth debyg gan gynnwys yr isafbris am alcohol a bagiau siopa untro, er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol. Rydym yn falch y bydd canllawiau yn cael eu darparu i awdurdodau lleol ynghylch sut i ddehongli'r gwaharddiad a bod disgwyl i weithgareddau gorfodi fabwysiadu dull cyffyrddiad ysgafn, gan ganolbwyntio ar arwain busnesau i gydymffurfiaeth yn y lle cyntaf yn hytrach na gorfodi. Rydym yn nodi barn y Gweinidog, o ganlyniad i gyfathrebu effeithiol, na ddisgwylir i gostau gorfodi fod yn sylweddol i awdurdodau lleol.

**38.** Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod yr amcangyfrifon costau i fusnesau sy'n newid i gynhyrchion amgen nad ydynt yn blastig untro yn seiliedig ar ymchwil a data o 2019/20. At hynny, roedd y model cychwynnol ar gyfer amcangyfrif y costau yn seiliedig ar naw cynnyrch yn hytrach nag 11 fel sydd wedi'i gynnwys yn y Bil. Er ein bod yn nodi barn y Gweinidog efallai bod

---

<sup>35</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 167

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 167

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 29 Medi 2022, paragraff 213

costau'r naw cynnyrch plastig untro wedi gostwng oherwydd y newid sydd eisoes yn digwydd i gynhyrchion amgen a'r effaith mewn mannau eraill yn y DU ac yn fyd-eang o wledydd sy'n gwahardd cynhyrchion plastig untro, dylai'r wybodaeth hon fod wedi'i chynnwys yn yr AER.

**39.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i barhau i gynnal ymchwil ar y cynhyrchion a nodwyd yn y Bil a chynhyrchion eraill sy'n cael eu hystyried a allai gael eu gwahardd yn y dyfodol. Yn ogystal, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ystyried y costau amcangyfrifedig yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol bresennol, wrth i gostau chwyddiant gynyddu a'r bunt ar ei lefel isaf erioed yn erbyn y ddoler, gan y gallai hyn gael effaith sylweddol ar gostau. Rydym yn ailadrodd ein disgwyliad y dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf pan gânt eu cyflwyno, er mwyn ein galluogi i graffu'n effeithiol ar oblygiadau ariannol Biliau.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau i fusnesau sy'n newid i blastigau amgen nad ydynt yn rhai untro o ganlyniad i'r Bil a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**40.** Rydym hefyd yn siomedig nad oedd yr AER yn gallu meintoli costau ac anfanteision yn ymwneud â gweithgynhyrchwyr a busnesau eraill sy'n gwyro cynhyrchiant oddi wrth eitemau plastig.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i asesu'r costau a'r anfanteision i weithgynhyrchwyr a busnesau eraill o wyro cynhyrchiant oddi wrth eitemau plastig. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**41.** Dylai'r Pwyllgor ofyn am eglurder ynghylch a yw'r £8.6 miliwn a nodwyd fel buddion o weithgynhyrchu ar sail y DU neu ar sail Cymru. Os yw'n cyfrif am weithgynhyrchu'r DU gyfan, ni ddylai hynny gael ei gynnwys fel budd i Gymru a dylai Llywodraeth Cymru gyfrifo'r budd penodol i Gymru.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw'r £8.6 miliwn a nodwyd fel buddion gweithgynhyrchu yn ymwneud â'r DU neu Gymru, ac, os yw'r ffigwr yn ymwneud â'r DU gyfan, dylai alw ar Lywodraeth Cymru i gyfrifo'r buddion sy'n benodol i Gymru. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**42.** Er ein bod yn gwerthfawrogi'r anawsterau a wynebier oherwydd y diffyg data sydd ar gael am weithgynhyrchwyr yng Nghymru a'r diffyg ymgysylltu â busnesau, credwn fod angen i

Llywodraeth Cymru wneud mwy i ymgysylltu â'r sector yn enwedig gan fod y Bil hwn yn cynnwys pwerau rheoleiddio i wahardd rhagor o gynhyrchion. At hynny, rydym yn disgwyl y dylai unrhyw reoliadau yn y dyfodol i wahardd cynhyrchion ychwanegol ddod ynghyd ag AER llawn a chadarn.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei lefel o ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr a busnesau yr effeithir arnynt yng Nghymru. Yn benodol, dylai ganolbwyntio ei hymdrechion yn y lle cyntaf ar ddarparu canllawiau a chymorth i annog cydymffurfiaeth yn y sector, yn hytrach na dibynnu ar bwerau gorfodi'r Bil.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddarparu Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan y Bil hwn sy'n gwahardd rhagor o gynhyrchion plastig untro nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth fel y'i d